Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Ebrill 3, 2020

Annwyl Rieni, Gwarcheidwaid a Disgyblion,

Gobeithiaf eich bod chi a'ch teuluoedd yn cadw'n iach ac yn ddiogel.

Mae'r bythefnos ddiwethaf wedi bod yn gyfnod rhyfedd a digynsail i ni gyd. Carwn ddiolch i'r staff am eu gwaith caled a'r modd maent wedi addasu i'n ffordd newydd o weithio ac addysgu. Estynnaf fy niolch hefyd i chi fel rhieni, gwarcheidwaid a disgyblion am eich cyd-weithrediad wrth i ni drawsnewid addysgu ein disgyblion ar lein drwy ddefnyddio "Show My Homework".

Fel tîm o staff, rydym yn cyfarwyddo gyda'n trefniant newydd o ddysgu o bell gyda'n disgyblion. Rydym yn gweld eisiau bwrlwm a sŵn y diwrnod ysgol yn ogystal â'r rhyngweithio dyddiol gyda'r disgyblion, athrawon, rhieni, llywodraethwyr a holl rhan-ddeiliaid eraill yr ysgol. Er hyn, yn ddi-os, iechyd a lles yw'r blaenoriaethau pennaf yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r cyfnod hwn yn un anodd i bawb. Er mwyn eich cynorthwyo fel teulu, atodaf wybodaeth ddefnyddiol sydd wedi ei ddarparu gan y Gwasanaeth Seicoleg at eich sylw. Maent hefyd wedi cynhyrchu clip fideo arbennig ar gyfer lles disgyblion yn ystod eu cyfnod estynedig yn y cartref. Mae'n ffeil rhy fawr i gael ei ddanfon ar e-bost ond bydd yn cael ei bostio ar dudalen facebook y Cyngor a thudalen facebook a twitter yr ysgol yn fuan. Carwn eich atgoffa, pe gyfyd unrhyw bryderon gennych chi neu'ch plentyn yn ystod y bythefnos nesaf, anogaf i chi a hwy gysylltu gyda'r ysgol drwy e-bost ymholiadau ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk neu drwy e-byst yr arweinwyr cynnydd a lles. Cofiwch ein bod yma i'ch cynorthwyo a'ch cefnogi yn ystod y cyfnod hwn.

O ran helpu chi a'r disgyblion gydag agweddau o "Show my Homework" rydym heddiw, drwy lythyr, wedi danfon canllawiau pellach atoch yn ogystal â rhestr o gwestiynau cyffredin sydd wedi codi yn ystod y bythefnos ddiwethaf wrth i ni gyd ymgyfarwyddo â defnyddio'r system. Gobeithiwn fydd y rhain o fudd i chi. Carwn atgyfnerthu'r neges o ran os nad yw disgyblion yn gallu cyflawni'r tasgau i gyd o fewn diwrnod, gallant geisio eto'r diwrnod canlynol. Rydym eisiau i bawb wneud eu gorau, ond hefyd nid ydym eisiau i neb bryderu ac yn cydnabod ei bod hi yn sefyllfa anodd i nifer ohonoch chi.

Gyda'r gwyliau'r Pasg yn cychwyn yn swyddogol y penwythnos hwn, ni fyddwn yn ychwanegu unrhyw dasgau neu weithgareddau newydd i'r disgyblion gwblhau dros y gwyliau. Yn unol â'r calendr ysgol, bydd tasgau newydd yn cael eu gosod erbyn dechrau'r tymor nesaf (20.4.20)

Byddwch yn derbyn gohebiaeth bellach gennyf bob dydd Gwener er mwyn eich hysbysu a'ch diweddaru o unrhyw newyddion a newidiadau i'r drefn. Mae croeso i chi hefyd f'ebostio drwy ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk.

Dymunaf Basg hapus i chi a'ch teulu.

Gofalwch am eich gilydd a chadwch yn ddiogel.

Yn ddiffuant,

Rhian Morgan
Pennaeth Dros-Dro

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

April 3, 2020

Dear Parents, Guardians and Pupils,

I hope that you and your families are keeping well and safe.

The last fortnight has been a strange and unprecedented time for us all. I would like to thank all school staff for their hard work and the manner in which they have adapted to our new way of working. I also extend my thanks to you as parents, guardians and pupils for your co-operation as we have made the transition to transform the way we educate our pupils using " Show My Homework".

As a team of staff, we are familiarising ourselves with the new arrangement of distance learning with our pupils. We miss the school's buzz, energy and the daily interactions with pupils, teachers, parents, governors and all our other stakeholders. Despite this, health and wellbeing must remain our main priorities during this time.

This is a difficult time for everyone. To help you as a family, I attach useful information provided by the Psychology Service, for your attention. They have also produced a special video-clip for pupil wellbeing during their extended time at home. The file is too big to send in an e-mail but it will be posted soon on the council's facebook page as well as the school's facebook and twitter pages. I would like to remind you that if you or your child have any concerns during the next fortnight, I encourage you to contact the school via the ymholiadau e-mail ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk or via the Progress Leader's e-mail. Remember that we are here to help and support you during this time.

With regard to helping you and pupils with aspects of "Show My Homework" we have today, via letter, sent further guidance as well as a list of FAQs which have arisen during the last fortnight, as we have all adapted to the new system. We hope that they will be useful for you. I would also like to re-iterate that if a pupil struggles to complete all the tasks during the day, they can try again the next day. We want everyone to do their best, but also, we don't want anyone to feel anxious. We acknowledge that this is a difficult situation for many of you.

The Easter holidays officially start this weekend, so we will not be adding any tasks or activities for pupils to complete during the holidays. In accordance with the school calendar, new tasks will be set by the beginning of the new term (20.4.20).

Every Friday, you will receive correspondence from me to inform you of the latest news and developments. You are also welcome to e-mail me via ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk.

Wishing you and your family a happy Easter.

Look after yourselves and keep safe.

Sincerely,

Rhian Morgan
Acting Headteacher